

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Bethan Roberts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

**Nos Iau 16 Gorffennaf 2020 am 18.30**

*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

### **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Jacob Milner

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Lowri Jones

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith, Dafydd Owen a Gabrielle Wyn.

### **2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2020.

### **3. Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams a'r Clerc i ymweld a'r safle i fesur ac i weld pa opsiwn yw'r gorau.

**3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Cyng. Iwan Hywel a Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r safleoedd diwedd yr haf pryd fydd nosweithiau yn tywyllu.

**3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – y Clerc wedi derbyn ymateb gan Iwan ap Trefor. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn ysgrifennu llythyr cryf ar ran y Cyngor.

**3.4** Ciciwr Calon Tregarth - Cyng. Dafydd Owen a Cyng. Huw Jones i edrych am safleoedd addas ar gyfer y ddau arwydd arall.

**3.5** Ciciwr Calon Neuadd Talgai – y postyn ar gyfer yr offer wedi cyrraedd. Y Clerc i drefnu i'r postyn gael ei rhoid ar y safle cyn gynted a bu'r modd.

**3.6** Arwyddion Ciciwr Calon Mynydd Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer arwyddion tebyg i rhai yn Nhregarth. Y Cynghorydd i danfon y prisiau ymlaen i'r Clerc.

- 3.7** Is-bwyllgor Llwybrau a Ffogydd – Cyng. Huw Jones a Dafydd Owen i ddanfon cofrestr i'r Cyngor yn dilyn eu cyfarfod ar ddiwedd Ionawr.
- 3.9** Llecyn Tir, Bont Twr – Cyng. Richard Fraser-Williams a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod yr ffurflen cofrestra tir. Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfon y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough).
- 3.10** Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – y Clerc i holi Cyng. Dafydd Owen am ddiweddariad.
- 3.11** Gwaith cynnal llwybrau – Y Clerc i holi Cyng. Dafydd Owen os yw'r gwaith wedi cychwyn.
- 3.12** Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – nifer fawr o gwynion wedi'i dderbyn yn yr wythnosau diwethaf. Nid yw'r palmant newydd ger y fynediad yn weladwy iawn i gyrrwyr ceir, ac mae'r bolard yno wedi torri. Y Clerc eisoes wedi danfon ebost ynglyn a'r mater. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 3.13** Nodwyd fod tir ger eiddo Y Gornel ar allt Cerrigllwydion wedi gael ei ffensio tuag at y palmant – Cyng. Dafydd Owen i rhoi diweddariad ar y mater yn y cyfarfod nesaf.
- 3.14** 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – Cyng. Jacob Milner wedi gwneud ymholiadau gyda Stad Penrhyn. Adroddwyd bod yr tir mewn sylw wedi gael ei werthu yn ystod yr 80au. Y Clerc a'r Cynghorwyr lleol i wneud ymholiadau i weld pwy yw'r perchennog.
- 3.15** Lon Dinas, Tregarth - Cyng. Jacob Milner wedi holi Stad Penrhyn ynglyn a'r tipio anghyfreithlon ger yr afon. Mae'r ochrau ger yr afon yn serth ofnadwy, felly yn beryglus. Y Cyngor i gadw llygad ar yr ardal yn y dyfodol.
- 3.16** Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau. Y Clerc i gael diweddariad.

#### **4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2020'

**Cyflwynwyd:** Materion gyda draeniau Mynydd Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi bod yn delio gyda'r mater hwn, y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Cyflwynwyd:** Difa wiwerod llwyd – mae'r mater yma yn ddwylo Cyfoeth Naturiol Cymru a perchnogion y tir.

**Cyflwynwyd:** Adran Trwyddedu – Clwb Criced Bangor – dim gwrthwynebiad i'r cais am drwydded.

**Cyflwynwyd:** Un Llais Cymru – Arolwg o weithio o bell – os yw'n berthnasol, aelodau i gwblhau'r holiadur ar-lein.

**Cyflwynwyd:** Arolwg cyhoeddus i ddeall effaith newidiadau i ofal iechyd yn ystod cam cyntaf argyfwng Coronafirws - os yw'n berthnasol, aelodau i gwblhau'r holiadur ar-lein.

**Cyflwynwyd:** Effaith sylweddol coronafirws – Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Lleol - Ymestyn gwahoddiad i bobl yng Nghymru i anfon eu meddylion ar sut i gefnogi adferiad ac ailadeiladu ôl-Covid yn y dyfodol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd:** Cysgodfan Bws Llandygai – trafodwyd o dan pwynt 3.1.

**Cyflwynwyd:** Cyfarfod Gwobryo Blyneddol Ysgol Dyffryn Ogwen – Cytunwyd y bydd y Cyngor yn rhoi rhodd o £300 at yr achos eleni.

#### **5. Gwaith y mis**

**5.1** Adroddwyd bod tipio anghyfreithlon wedi cymeryd lle ger fynediad Penyffriddoedd.

- 5.2** Adroddwyd efallai bod trafferth gyda'r trwydded alcohol yn tafarn Pant yr Ardd, Cyng. Jacob Milner i holi Cyng. Dafydd Owen.
- 5.3** Nodwyd Cyng. Dafydd Roberts fod y gwasanaeth bws wedi lleihau ers y cyfnod clo, ond ers i'r rheoliadau llacio, nid yw'r gwasanaeth wedi cynyddu, sy'n golygu fod llawer o unigolion gorfod aros mewn arosfannau bysiau i aros am y bws nesaf, hynny yn golygu disgwyl am awr ychwanegol. Penderfynwyd holi'r Uned Trafnidiaeth yn Cyngor Gwynedd a'r chwmni bysiau Arriva pryd fydd y gwasanaeth blaenorol yn ail-ddechrau.
- 5.4** Adroddwyd fod y gwaith ar y gylis ar Tan y Bwlch heb gael ei gwblhau a fod y gwaith cynnal ar y ffyrdd yn warthus, ac yn wastraff arian. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn drafftio llythyr cryf ar ran y Cyngor i amlygu pryderon y Cyngor am amrywiaeth o bryderon ynglyn a'r gwaith cynnal yn yr ardal.

## **6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Ysgol Bodfeurig** - Cyng. Mary Hayes wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf dros y we. Adroddwyd fod hanner y plant wedi dychwelyd i'r ysgol yn dilyn yr argyfwng coronafirws.

## **7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**7.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mehefin. Derbyniwyd yr adroddiad.

**7.2** Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

## **8. Taliadau**

Dim taliadau.

## **9. Penderfyniadau Cynllunio**

**C15/0966/16/MG**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0571/16/HY**

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,  
adeilad derbynfa, a chreu 2  
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio  
ffyrdd mynediad cysylltiedig a  
meysydd parcio, tirweddu a gwaith  
cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Holl ymghynghoriadau drosodd

**C19/0918/16/LL**

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth  
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2 uned wyliau ynghyd a gosod tanc septig newydd a pharcio

**Penderfyniad:** Cais wedi'i gofrestru

**C20/0267/16/DT**

Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,  
Estyniad cefn unllawr.

**Penderfyniad:** Ar y gweill

**C20/0330/16/LL**

3, Sling Cottages, Sling,  
Newid defnydd sied ardd ar gyfer defnydd busnes (cynhyrchu, storio a phacio medd)

**Penderfyniad:** Ar y gweill

#### **10. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

#### **15. Unrhyw fater brys arall**

Dim.